PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD

DYDD LLUN, 1 HYDREF 2018

Present: Councillor Jones-Pritchard(Chairperson)
Councillors Goddard, Goodway, Kelloway, Lister, McKerlich, Murphy, Naughton, Keith Parry a/ac Wong

1 : CYDNABYDDIAETHAU

Llongyfarchodd y Cadeirydd ar ran y Pwyllgor y Cynghorydd Jennifer Burke-Davies ar enedigaeth ei gefeilliaid ym mis Medi.

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Ramesh Patel fel Cadeirydd Fforwm Cyswllt y Cadeiryddion Craffu a oedd yn bresennol ar gyfer yr eitem ar Ddatblygu Aelodau, a'r Cynghorydd Fenella Bowden fel Aelod Annibynnol a oedd wedi gofyn am gael arsylwi ar y cyfarfod. Gwahoddodd y Cadeirydd y ddau Gynghorydd i gymryd rhan yn y cyfarfod.

Yn ogystal, croesawodd y Cadeirydd Mr. Gary Jones, Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd i'w gyfarfod cyntaf y Pwyllgor.

2 : CADEIRYDD, AELODAETH A CHYLCH GORCHWYL

Nodwyd bod y Cyngor ar 24 Mai 2018 wedi: -

| | | |
|---|---|---|
| 1. | Penodi'r Aelodau canlynol i'r Pwyllgor:<br>Y Cynghorwyr Burke-Davies, Goddard, Goodway, Jones-Pritchard, Kelloway, Lister. McKerlich, Murphy, Naughton, Keith Parry, Sandrey, Singh a Wong. | |
| 2. | Ail-ethol y Cynghorydd Jones-Pritchard fel Cadeirydd y Pwyllgor | |
| 3. | Cymeradwyo cylch gorchwyl y pwyllgor fel a ganlyn: | |
| | i | Ymgymryd â swyddogaeth yr Awdurdod Lleol o ran penodi Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd; |
| | ii | Adolygu staff, adeiladau ac adnoddau eraill sydd ar gael i Bennaeth y Gwasanaethau Democrataidd er mwyn sicrhau eu bod yn ddigonol ar gyfer cyfrifoldebau'r swydd; |
| | iii | Llunio adroddiadau, o leiaf bob blwyddyn, ar gyfer y Cyngor llawn mewn perthynas â'r materion hyn. |

3 : DATGAN BUDDIANNAU

Doedd dim Datganiad Buddiannau ar gyfer y cyfarfod hwn.

4 : COFNODION - 24 MAI 2018

Cymeradwywyd cofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 24 Mai 2018 yn gofnod cywir, ac fe'u llofnodwyd gan y Cadeirydd.

5 : RHAGLEN DATBLYGU'R AELODAU

Dywedodd y Cadeirydd y byddai'r eitem hon yn cael ei chymryd yn gyntaf yn dilyn cais gan y Cynghorydd Patel.

Mae'r adroddiad yn gosod cyd-destun a phwrpas deddfwriaethol yr adroddiad, ac yn cyflwyno adroddiad ar y canlynol: -

| | |
|---|---|
| • | Sesiwn Dysgu a Datblygu a gynhaliwyd ers y cyfarfod diwethaf; |
| • | nifer y Cynghorwyr sydd wedi ymgymryd â modiwlau Dysgu Ar-lein; |
| • | Sesiwn sgiliau hanfodol a Phwyllgor penodol a gytunwyd eisoes gan y Pwyllgor ar 5 Chwefror 2018; |
| • | Canlyniadau ymchwiliad diweddar Swyddfa Archwilio Cymru i'r broses graffu "Addas i'r Dyfodol" a chynllun gweithredu sy'n cael ei ddatblygu gyda Chadeiryddion Craffu ar gyfleoedd datblygu a dysgu Aelodau Craffu. |

Nododd y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd weithgareddau dysgu sylfaenol arfaethedig gan gynnwys Pwyllgor penodol i'w cynnal yn ystod y 5 mis nesaf. Er mwyn hwyluso gweithgareddau dysgu'r Aelodau, cynigiodd y dylid cynnal Arolwg o Amserau Cyfarfodydd.

Tynnodd y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd sylw'r Pwyllgor at yr angen am fframwaith addas i'r diben i gefnogi gofynion datblygu unigol a chyfunol Cynghorwyr, ac mae'n bwriadu datblygu strategaeth datblygu aelodau i sicrhau bod cyfleoedd priodol ar gyfer Dysgu a Datblygu Aelodau yn cael eu nodi a'u blaenoriaethu er mwyn sicrhau eglurder pwrpas wrth symud ymlaen.

Wrth ystyried argymhellion yr adroddiad, gwnaeth y Pwyllgor y sylwadau canlynol:

| | |
|---|---|
| • | mae gofynion Cynghorwyr sydd Newydd eu Hethol yn wahanol iawn i ofynion Aelodau hir eu gwasanaeth; |
| • | mae grwpiau gwleidyddol yn rhoi cymorth gwerthfawr i Aelodau Etholedig gan gynnwys mentora, ond mae mentora/cyfeillio a dysgu gan arfer da eraill, yn enwedig ynghylch rheoli gwaith achos a chyfeirio, yn gyfleoedd y dylid eu darparu i bob Aelod; |
| • | Gellir darparu cyfleoedd dysgu a datblygu mewn amrywiaeth o ffyrdd gan gynnwys drwy sesiynau briffio i aelodau; gweithdai sesiwn grŵp bach ar bynciau penodol neu fesul Pwyllgor, ond bod angen i bob cyfle gael ei gyflwyno'n dda ac yn ystyrlon; |
| • | Cefnogi'r cynnig ar gyfer digwyddiadau rhanbarthol gan gynnwys sesiynau dysgu ar y cyd i rannu costau a darparu cysondeb mewn dysgu; |
| • | Mae sesiynau a ddarperir yn allanol, yn enwedig mewn perthynas â materion deddfwriaethol neu statudol, wedi bod yn werthfawr i Aelodau yn y gorffennol. |
| • | Dylid ailedrych ar werthuso'r hyfforddiant hyd yn hyn i asesu'r hyn a ganfu aelodau etholedig yn fuddiol o'r sesiynau a gynhaliwyd, a bod adborth yn |

| | |
|---|---|
| | syth ar ôl sesiynau yn hanfodol; |
| • | Cydnabuwyd bod gwaith Aelodau Etholedig yn amrywiol ac yn dod â heriau, yn enwedig i'r Aelodau hynny sydd hefyd yn gweithio ac sydd â theuluoedd. Teimlwyd y gellid gwneud mwy i roi gwybod i ymgeiswyr posibl am yr ymrwymiadau a'r gofynion fel eu bod mewn sefyllfa well i ddelio â'r rôl; |
| • | Y dylai Aelodau Etholedig fod yn annog pobl i ddysgu o'r profiadau a'r cyfleoedd sydd ar gael iddynt, megis mynd i Bwyllgorau Craffu, Pwyllgorau Rheoleiddio; dod yn Aelodau o wahanol Bwyllgorau; cysgodi Aelodau eraill ac ati; |
| • | Mae cyfeirio at hunan-ddysgu yn rhoi ystod ehangach o gyfleoedd i Aelodau Etholedig. |

Bu'r Pwyllgor yn trafod manteision cynnig ystod o amserau sesiynau, gan gynnig yn hytrach na chynnal Arolwg o Amserau Cyfarfodydd, y dylid gofyn i'r Aelodau a fyddai ganddynt ddiddordeb mewn dod i'r cyfarfod a'r manteision iddynt o ran sesiwn yn ôl pwnc fel bod asesiad yn cael ei gynnal ar werth y sesiwn i Aelodau Etholedig.

Cefnogodd y Pwyllgor ddatblygu strategaeth Dysgu a Datblygu Aelodau fel y ddogfen fframwaith i roi eglurder i bob Aelod Etholedig ar ddisgwyliadau ar gyfer dysgu hanfodol a chyfleoedd dysgu eraill ac awgrymodd y dylid datblygu hyn mewn ymgynghoriad â Chwipiau Grwpiau'r Pleidiau sy'n gallu darparu'r adborth oddi wrth y Grwpiau. Hefyd, cynigiwyd a chytunwyd y dylid gwahodd yr Aelod Annibynnol i gymryd rhan gyda Chwipiau Grwpiau'r Pleidiau.

PENDERFYNWYD –

| | |
|---|---|
| 1. | Bydd Aelodau Etholedig yn cael eu harolygu ar bynciau'r gweithgareddau Hyfforddiant Sylfaenol sydd wedi'u cynllunio ar gyfer y 5 mis nesaf; |
| 2. | Bod Hyfforddiant Penodol y Pwyllgor, yn amodol ar gwblhau'r pwnc a'r sesiwn, yn cael ei agor i bob Aelod Etholedig fel cyfle i ddysgu ac i godi ymwybyddiaeth; |
| 3. | Caiff y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd ei awdurdodi i drefnu a/neu aildrefnu'r digwyddiadau yn dilyn canlyniadau'r arolwg; |
| 4. | Bydd y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd, mewn ymgynghoriad â Chwipiau Grwpiau'r Pleidiau a’r Aelod Annibynnol, yn datblygu strategaeth datblygu aelodau i'w chymeradwyo gan y Pwyllgor yn y cyfarfod nesaf ym mis Ionawr 2019. |

## 6 : GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD – GWEITHGAREDDAU A MATERION CEFNOGAETH GWASANAETH

Roedd yr adroddiad yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am berfformiad Gwasanaethau Democrataidd y Cyngor, yn enwedig mewn perthynas â monitro perfformiad ar Ymholiadau'r Aelodau; nifer y staff sy'n defnyddio Modern.Gov; targedau argraffu; nifer gwylwyr Gweddarlledu cyfarfodydd y Cyngor, cyfarfodydd Cynllunio a Chraffu a chyflwyno Adroddiadau Blynyddol gan yr Aelodau.

Trafododd y Pwyllgor fanteision ac anfanteision System Ymholiadau'r Aelodau, yn enwedig o ran ymatebion safonol; ymatebion nad ydynt yn ateb yr ymholiad; y polisi esgoli a chau ymholiadau. Hysbyswyd yr Aelodau y gall swyddogion Cymorth

Gwasanaethau Aelodau a ddyrennir i bob clwstwr o Aelodau gysylltu ymholiadau; ailagor ymholiadau; mynd ar drywydd asiantau ar gyfer ymatebion penodol a bod yna broses o esgoli a gefnogir gan y Rheolwr Gwasanaethau Pwyllgorau ac Aelodau er mwyn delio â materion a godwyd gan Aelodau ar lefel Uwch Reolwyr. Dywedodd y Rheolwr fod y tîm yn rhagweithiol wrth ymdrin ag ymholiadau a sicrhau yr ymatebwyd i'r Aelodau ac y cawsant y wybodaeth angenrheidiol er mwyn iddynt allu ymateb mor llawn â phosibl i'r etholwyr.

Atgyfnerthodd y Pwyllgor faterion a amlygwyd yn yr adroddiad mewn perthynas â seilwaith TG a'r angen am welliannau sylweddol o ran cysylltedd er mwyn galluogi Aelodau i weithio'n effeithiol. Dywedwyd wrth y Pwyllgor bod y materion hyn wedi cael eu codi'n ffurfiol gyda'r Prif Swyddog Gwasanaethau Digidol.

PENDERFYNWYD – bod yr adroddiad a'r sylwadau a dderbyniwyd gan yr Aelodau Etholedig yn cael eu nodi a bod diweddariad yn cael ei roi i gyfarfod nesaf y Pwyllgor.

7 : CYMHARU GWASANAETHAU A CHEFNOGAETH YN ERBYN SIARTER CYMDEITHAS LLYWODRAETH LEOL CYMRU AR GYFER CEFNOGI A DATBLYGU AELODAU

Rhoddodd yr adroddiad ddadansoddiad i'r Pwyllgor o'r gwaith a wnaed gan Bennaeth y Gwasanaethau Democrataidd yn unol â Siarter Safonau Aelodau Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) ar gyfer Cefnogi a Datblygu Aelodau. Mae hyn yn rhoi safbwynt meincnod i'r Pwyllgor o sut roedd Caerdydd yn perfformio yn erbyn meini prawf arfer da a bennwyd gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Sgoriodd Caerdydd fel a ganlyn:

| Statws | |
|---|---|
| Coch | Nid yw'n bodloni 3 o'r 19 maen prawf heb gyflwyno prosesau newydd |
| Ambr | Gyda rhywfaint o newid sylweddol i'r broses bresennol byddai 6 allan o 19 maen prawf yn cael eu bodloni |
| Gwyrdd | Mae 10 o'r meini prawf presennol yn cael eu cyflawni neu gellir eu bodloni gydag ond ychydig bach o newid. |

Trafododd y Pwyllgor yr asesiad a gwnaed nifer o sylwadau:

| | |
|---|---|
| • | y cyfleoedd y tu allan i'r arena wleidyddol fel wythnos democratiaeth i godi ymwybyddiaeth o rôl cynghorydd i ddarpar ymgeiswyr ac i weithio gydag asiantaethau fel Llywodraeth Cymru i wella amrywiaeth yr ymgeiswyr sy'n dod ymlaen ar gyfer eu henwebu |
| • | pryderon bod pwysigrwydd rôl gynrychioliadol cynghorydd yn cael ei golli yn y llu o brosesau sy'n gwanhau'r gydnabyddiaeth o rolau Aelodau Etholedig gan swyddogion y Cyngor. |

PENDERFYNWYD –

| | |
|---|---|
| 1. | dylid nodi'r dadansoddiad a wnaed o gyngor Caerdydd yn erbyn Siarter Cefnogi a Datblygu Aelodau CLILC; |
| 2 | y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd yn ystyried sut y gall 'y Cyngor' gydnabod a bodloni anghenion Aelodau Etholedig yn fwy effeithiol. |

8 : DISGRIFIADAU RÔL AELODAU

Mae'r adroddiad yn darparu'r gyfres o ddisgrifiadau rôl Aelodau Etholedig a luniwyd gan CLILC i'r Pwyllgor ac a fabwysiadwyd heb eu haddasu gan y Cyngor hwn ym mis Rhagfyr 2013, a disgrifiadau rôl eraill sy'n bodoli o fewn y Cyngor. Gofynnwyd i'r Pwyllgor asesu a oedd y rhain yn bodloni'r disgwyliadau yn llawn o ran rolau o fewn Cyngor Caerdydd ac a oedd angen nodi unrhyw rolau eraill fel y gellid cyflwyno adroddiad i'r Cyngor Llawn i fabwysiadu Disgrifiadau Rôl ar gyfer Aelodau.

Ystyriwyd bod y disgrifiad rôl ar gyfer Chwip Grŵp efallai'n amharu ar diriogaeth 'wleidyddol' er y cydnabuwyd bod syniad o'r hyn a ddisgwylir gan Chwip Grŵp o safbwynt y Cyngor yn werthfawr i Chwipiau newydd.

Cydnabuwyd pwysigrwydd cynnwys cyfrifoldeb Aelodau o'r Ymrwymiad Caerdydd o ran Rhianta a Diogelu Corfforaethol, yn ogystal â disgrifiad o'r rôl ar gyfer Cadeirydd ac Aelodau'r Pwyllgor Rhianta Corfforaethol.

PENDERFYNWYD –

| | |
|---|---|
| 1. | Y bydd Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd yn sefydlu gweithgor o 3–4 Aelod Etholedig er mwyn adolygu'r disgrifiadau rôl; |
| 2. | Dylid cynnwys rôl a manyleb y person ar gyfer Cadeirydd ac Aelod o'r Pwyllgor Rhianta Corfforaethol i'w mabwysiadu fel rhan o unrhyw adroddiad yn y dyfodol; |
| 3. | Bod yr Is-grwp yn adrodd nôl i'r Pwyllgor ym mis Ionawr er mwyn gallu cyflwyno adroddiad i'r Cyngor Llawn yn y flwyddyn newydd. |

9 : Y FLAENRAGLEN WAITH

Gofynnwyd i'r Pwyllgor ystyried ei Raglen Waith ar gyfer y dyfodol a chytunwyd ar yr eitemau canlynol ar gyfer y cyfarfod nesaf:-

| | |
|---|---|
| • | Strategaeth Dysgu a Datblygu Aelodau a chynigion ar gyfer rhaglen ddatblygu 6 mis |
| • | Disgrifiadau Rôl Aelodau |
| • | Diweddariad Gwasanaeth |
| • | Y Flaenraglen Waith |

PENDERFYNWYD – i nodi'r Cynllun Gwaith diwygiedig.

10 : EITEM(AU) BRYS (OS OES RHAI)

Nid oedd unrhyw faterion brys i'w trafod.

11 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF – 14 IONAWR 2018 AM 5.00PM

The meeting terminated at 6.20 pm